# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023

Amser: 09.30 - 12.10

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Gwrandawiad craffu cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru

(09.30 - 10.15) (Tudalennau 1 - 42)

- Kate Eden, Ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil: Gwrandawiad craffu cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru
- Holiadur gwrandawiad cyn penodi (Saesneg yn unig)
- CV yr ymgeisydd a ffefrir (Saesneg yn unig)
- Datganiad personol yr ymgeisydd a ffefrir (Saesneg yn unig)
- Ffurflen gais yr ymgeisydd a ffefrir (Saesneg yn unig)
- Pecyn gwybodaeth i'r ymgeiswyr
- Papur briffio Llywodraeth Cymru
- Data amrywiaeth yr ymgeiswyr

## 3 Papurau i'w nodi

(10.15 - 10.25)

### 3.1 Ymchwiliad San Steffan i ddarlledu yng Nghymru

(Tudalennau 43 - 44)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Pwyllgor Materion Cymreig: Ymchwiliad San Steffan i ddarlledu yng Nghymru - 4 Gorffennaf 2023

### 3.2 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelwch Ar-lein

(Tudalen 45)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Gweinidog yr Economi: Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelwch Ar-lein - 6 Gorffennaf 2023

### 3.3 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

(Tudalen 46)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Prif Weinidog: 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig - 6 Gorffennaf 2023

### 3.4 Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 47 - 57)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru - 6 Gorffennaf 2023
- Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru - Mehefin 2023

### 3.5 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

(Tudalennau 58 - 62)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023

### 3.6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

(Tudalennau 63 - 65)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid: Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25 - 7 Gorffennaf 2023

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(10.25)

## 5 Gwrandawiad craffu cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru: trafod y dystiolaeth

(10.25 - 10.45)

## 6 Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol: diweddariad ar broses yr ymchwiliad

(10.40 - 10.45) (Tudalennau 66 - 67)

Dogfennau atodol:

- Nodyn briffio: Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol

## Egwyl

(10.45 - 11.00)

## 7 Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol a Gwasanaeth Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill: trafod gohebiaeth ddrafft

(11.00 - 11.05) (Tudalennau 68 - 69)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at y Prif Weinidog: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol a Gwasanaeth Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill (Saesneg yn unig)

## 8 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2): trafod yr adroddiad drafft

(11.05 - 11.20) (Tudalennau 70 - 84)

Dogfennau atodol:

- Drafft: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 1 a Rhif 2 y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) Bill

## 9 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2022-23: trafod yr adroddiad drafft

(11.20 - 11.40) (Tudalennau 85 - 113)

Dogfennau atodol:

- Nodyn briffio: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2022-23 (Saesneg yn unig)
- Drafft: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2022-23 (Saesneg yn unig)

## 10 Blaenraglen Waith

(11.40 – 12.10)

### 10.1 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref 2023

(Tudalennau 114 – 118)

Dogfennau atodol:

- Blaenraglen waith: hydref 2023 (Saesneg yn unig)

### 10.2 Diwylliant a’r berthynas newydd â’r UE: trafod y papur cwmpasu

(Tudalennau 119 – 120)

Dogfennau atodol:

- Papur cwmpasu: Diwylliant a’r berthynas newydd â’r UE

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Welsh Parliament
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

# Pre-appointment hearing for the post of Chair of National Museum Wales

## Pre-appointment questionnaire

July 2023

The Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee will be carrying out a hearing with the preferred candidate for the post of Chair of National Museum Wales in July 2023.

**1.** The purpose of this session is to improve the transparency of the public appointments process and allow the preferred candidate an opportunity to experience parliamentary and public scrutiny. A report of the session will be sent to the Minister responsible for making the appointment

**2.** In order to assist with preparation for the pre-appointment session, I would be grateful if you could complete this questionnaire. Your answers will be shared with Committee members ahead of the meeting. The questions below and the answers you provide will form the basis of the discussions with you at the session. Please note that Members may decide to deviate from this structure, depending on answers you provide to the questionnaire and the public evidence session.

**3.** Please can you return the completed questionnaire by email to SeneddCulture@senedd.wales by 16.00 on 6 July 2023. There is no word limit for the questions. However I would recommend no more than a couple of paragraphs for each question.

**4.** Please be aware that unless otherwise agreed, the Committee will publish all information submitted to it, including this questionnaire.

**5.** If you have any questions, please email the Clerk at SeneddCulture@senedd.wales.

| Tell us a little bit about yourself and your background (for committee session). | Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi eich hun a'ch cefndir (ar gyfer sesiwn y pwyllgor). |
|---|---|
| One of four children, I was born in Wrexham and grew up in a village just outside Mold in North Wales. I attended the Alun School in the town through to sixth form, where I benefitted from some really great and inspirational teaching - in art, literature, history and politics in particular – which encouraged me to believe that I could actually win a place at university. I did and whilst I was there I gained a scholarship to the University of Siena to study the art and political philosophy of the Italian city states – an amazing opportunity for which I'll always be grateful. My executive career was then spent in the pharmaceutical and biotech industry working for a range of companies in public affairs, policy and communications roles. These were senior leadership positions in large, complex, global organisations operating under close scrutiny from regulators, politicians and the public. Since 2016 I've had a portfolio career in Wales with a number of non-executive appointments across the Welsh public sector, in particular with Public Health Wales, the Arts Council of Wales and Welsh Health Specialised Services. These positions now combine my background in health with my passion for the cultural life of our nation. Having grown up as the first generation in our family not to speak Welsh, I've been learning Welsh through Coleg Gwent. | |
| Question 1: What is your motivation for applying to be Chair of National Museum Wales? | Cwestiwn 1: Beth yw eich cymhelliant dros wneud cais i fod yn Gadeirydd Amgueddfa Cymru? |
| This is a really exciting opportunity to help lead Wales' family of national museums and collections through the next part of their journey to becoming truly accessible, representative reflections of our myriad Welsh communities and histories – and I'm incredible grateful to have reached this stage in the process. One of the first trustee roles I applied for when I left my executive career was with the Museum. This was back in 2016 and at that time I wasn't successful but it sparked an interest that has grown over the years especially as I've seen the Amgueddfa develop and evolve. It's response to difficult times has been inspirational to watch as a visitor – from Reframing Picton, the Objects of Comfort wellbeing campaign, to the purchase of Melin Teifi - it shows a future thinking responsive organisation that I'd love to be part of leading. I'm also passionate about ensuring everyone has the chance to experience this work, to access our facilities and collections – as my work with the Arts Council has shown the impact arts and cultural provision can have in and with communities. | |
| Question 2: Why do you think you are well-suited for the role? | Cwestiwn 2: Pam ydych chi o'r farn eich bod chi'n ymgeisydd addas ar gyfer y rôl hon? |

Having worked as a non executive/trustee on a number of boards over the past seven years, three years ago I was fortunate enough to be appointed as chair of a NHS organisation. This has been a great opportunity to lead an organisation alongside our Managing Director, and see the impact robust governance, sound finance, rigourous oversight and scrutiny can make to an organisation and its staff, and how we deliver for our population. Having been a board member of the Arts Council of Wales for six years, I recently spent six months acting up as Interim Chair. That period - during which I supported the settling in of a new Chief Executive, and oversaw the consultation and application stage for our forthcoming Investment Review - was really instructive and inspirational in allowing me to see myself as a Chair of major national institution. I'm also excited to explore further ways to strengthen the partnerships between our cultural assets, health and well-being, and think I am well placed to champion this work.

| Question 3: What are the three main outcomes that you want to achieve during your tenure? | Cwestiwn 3: Beth yw'r tri phrif beth ydych chi am eu cyflawni yn ystod eich cyfnod yn y rôl? |
|---|---|

The work programme and priorities of the Amgueddfa are wide ranging and (rightly) ambitious but there are three elements I would highlight as particularly key to the Chair's role in first three years. Firstly, providing robust oversight of delivery of the priorities set out in the Amgueddfa's strategy with a particular focus on widening engagement across all our communities – both through digitisation projects and in person. Secondly, leading implementation of the recommendations in the forthcoming Tailored Review. Finally, the Chair and the Board play an incredibly important role in setting tone and culture for an organisation and I would want to ensure that every staff member feels like Amgueddfa Cymru is a place where their voice is heard and their contribution valued, where they can both develop themselves and their career, and inspire all our current and future visitors to enjoy and interact with our collections.

| Question 4: How will you work with individuals and organisations that support and promote the work of National Museum Wales? | Cwestiwn 4: Sut byddwch yn gweithio gydag unigolion a sefydliadau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo gwaith y Amgueddfa Cymru? |
|---|---|

Effective partnership working is key to ensuring our facilities, locations and collections are as accessible and representative as they possibly can be. My first job would be to fully understand the range of partnerships with individuals and organisations that are already in place, engage with them and seek to build on those relationships to better further our joint aims and ambitions. Secondly, I'd want to understand where there are gaps in our collaborative working – across Wales, the UK and internationally. Part of my public facing role as Chair would be to work to foster those partnerships and be the strongest advocate that I can on behalf of Amgueddfa Cymru and all its staff. Finally, my

| | |
|---|---|
| personal style is to be visible in and around the organisations I work with, to understand staff, partners and their experience of working on the ground – that understanding is vital to good governance and effective board working. | |
| Question 5: How will you ensure that you maintain your independence from the Welsh Government, whilst also influencing and holding the Welsh Government to account on areas of priority for arts, culture and heritage? | Cwestiwn 5: Sut byddwch yn sicrhau eich bod yn cynnal eich annibyniaeth o Llywodraeth Cymru, tra hefyd yn dylanwadu a dal y Llywodraeth Cymru i gyfrif ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth? |
| The relationship between Welsh Government and Amgueddfa Cymru is well described in the Royal Charter, the Remit Letter and the Framework Document and operates on the arms length principle. Building a strong relationship with officials in the sponsor department and the Deputy Minister will be key to maintaining this principle. I'm used to working as a Chair and board member with Welsh Government in this way – maintaining independence whilst ensuring positive and productive relationships. There will always be difficult conversations to be had as public monies are spent and priorities are being delivered, but ensuring there are always open channels of communications to and from the Chair is critical. | |
| Question 6: How will you work with Senedd Members, Senedd Committees and other stakeholders? | Cwestiwn 6: Sut fyddwch chi'n gweithio gydag Aelodau o'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a rhanddeiliaid eraill? |
| I'd like to work with this Committee, other Senedd Committees and Senedd Members in an open and transparent manner. Senedd Committees and Members play a critical role in scrutinising the work of Amgueddfa Cymru and the way in which it spends public money. There will be formal ways in which the Chair of the Amgueddfa will need to interact with them – providing evidence and keeping them updated on areas of priority. Outside these more formal interactions, I would warmly welcome regular contact with Committees and Members in the work the Amgueddfa does so that the opportunities and challenges that face us are fully understood. | |

## Background

**6.** Welsh Ministers and the Senedd have agreed to pre-appointment scrutiny of some Chair/Commissioner appointments by the relevant Senedd Committee in order to further improve the scrutiny and transparency of the public appointment process. This scrutiny will take the form of a hearing of 45 minutes, in public session, of the preferred candidate.

**7.** As part of the recruitment process, you will have been told that Senedd Committees have the option to conduct a hearing for 'significant Welsh Government Ministerial appointments'. The Chair of National Museum Wales is one of these roles.

**8.** As part of their role, the preferred candidate will need to be able to withstand parliamentary and public scrutiny. This hearing is an opportunity to experience this. The question topics during the hearing are a matter for Committee Members, however, they will usually cover:

- a candidate's professional competence;
- personal independence;
- how the individual would plan to undertake the role (e.g. building relationships with internal and external stakeholders and working with the Welsh Government) and;
- the experience and expertise they would bring to the role.

**9.** Candidates are not expected to understand the intricate workings of the body for which they would have responsibility, in this case, National Museum Wales, though such questioning may feature in evidence sessions after an individual has taken up post.

## Procedure

**10.** At least one week in advance of the scheduled date for the hearing (12 July 2023), the Welsh Government will provide the Committee with the name and relevant details (CV, personal statement, declaration of interests etc) of the Welsh Government's preferred candidate for the appointment, together with information about the role, as well as a short outline of how the recruitment was conducted.

**11.** The Welsh Government should have briefed the preferred candidate on the nature of the pre-appointment hearing in advance. However, candidates are welcome to speak directly to the Clerk of the Committee to discuss the Committee's likely approach, please email SeneddCulture@senedd.wales if you would like to speak to the Clerk about your hearing.

**12.** Following the hearing, the Committee Clerk will write a summary of the Committee's comments and send this, as a report, to the Welsh Government Public Bodies Unit within 48 hours. The report will set out the Committee's views on the preferred candidate's suitability for the role.

**13.** The candidate and the Minister will usually receive the report under a 24 hour embargo to allow them time to consider the report and, if needed, prepare a response to any specific points it contains.

**14.** The Minister will then weigh the views of the Committee carefully against the evidence from the appointments procedure to reach a final view to ensure that the decision is made fairly and taking all relevant considerations into account.

**15.** It is for the Minister to decide whether or not to accept a Committee's recommendations relating to an appointment. The Minister must consider any relevant observations made by the Committee before deciding whether to go ahead with the appointment.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

# Amgueddfa Cymru

# Penodi Cadeirydd

## Dyddiad Cau: 17:00 11 Ebrill 2023

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Cyflwyno cais** | | **3** |
| **Atodiad A** | **Penodi Cadeirydd i Amgueddfa Cymru** | **6** |
| **Atodiad B** | **Rolau a Chyfrifoldebau Amgueddfa Cymru** | **11** |
| **Atodiad C:** | **Y Broses Ddewis** | **13** |

## Cyflwyno cais

Diolch am fynegi diddordeb yn swydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru. Fel Cadeirydd, byddwch yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol yr Amgueddfa drwy lunio strategaethau'r Bwrdd a chyfrannu at bolisïau a ddaw â budd i'r Amgueddfa yn y tymor byr a'r tymor hir. Caiff yr ymgeisydd llwyddiannus ei benodi'n Gadeirydd Amgueddfa Cymru, a bydd yn gyfrifol am gadeirio a goruchwylio Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Cadeirydd yn atebol yn y pen draw i Weinidogion Cymru am y modd yr ymdrinnir â materion Amgueddfa Cymru ac am ymddygiad ei Hymddiriedolwyr. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi rhagor o fanylion am rôl a chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac Amgueddfa Cymru; ac am y broses ddewis.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: Penodiadau Cyhoeddus - (tal.net)

I wneud cais am y swydd, cliciwch ar y swydd ac yna ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen i gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych wedi'u hanfon, trwy'ch cyfrif. Ar ôl cofrestru, byddwch yn cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein. Ni ddylai'r datganiad personol na'r CV fod yn fwy na dwy dudalen A4 o hyd (pedair tudalen i gyd)

I

**Datganiad Personol**

Y datganiad personol yw'ch cyfle i

1. esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd,
2. dangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol, ac
3. esbonio sut y gallech gyfrannu at waith Amgueddfa Cymru.

Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad byw a/neu broffesiynol yn cyfateb i rôl y Cadeirydd a'r 'meini prawf hanfodol', a beth oedd eich rôl chi wrth gyflawni amcan penodol. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Peidiwch â gadael i'ch datganiad personol fynd yn fwy na dwy dudalen o hyd. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn.

**CV**

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol. **Peidiwch â chynnwys rhestrau hir o gyhoeddiadau neu waith ymchwil.**

**Tystlythyrau**
Rhowch enwau dau ganolwr. Byddwn yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus.

**Amserlen fras**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | **17:00 11 Ebrill 2023** |
| Llunio rhestr fer: | |
| Cyfweliadau: | |

Gwrandawiad posibl cyn penodi: I'w drefnu

**Datganiad ar Amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir sy'n gyfarwydd â rhannau gwahanol o Gymru - er mwyn helpu'r byrddau i ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am swyddi ar gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

**Hyderus o ran Anabledd**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff wneud ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

**Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl cyn belled â bod ei gais yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd dan sylw.** Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi roi tystiolaeth yn eich cais sy'n dangos eich bod yn bodloni'n gyffredinol lefel cymhwysedd y swydd ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu pobl anabl a phobl o gefndir amrywiol yn eu swydd a'u gyrfa. Os hoffech warant o gyfweliad, cysylltwch â publicappointments@gov.cymru.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â **publicappointments@gov.cymru** cyn gynted ag y

medrwch  a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

**Cysylltiadau:**
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddewis, cysylltwch â:

Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: publicappointments@gov.wales

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â rôl Amgueddfa Cymru a rôl y Cadeirydd neu i siarad ag aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr cysylltwch â Mark Petherick
Mark.Petherick@museumwales.ac.uk Ffôn: (029) 2057 3130)

Neu cysylltwch â Jason.Thomas@gov.wales (Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru)

Os hoffech ragor o help i ymgeisio am y swydd, cysylltwch â publicappointments@gov.wales.

Os hoffech ragor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i Penodiadau cyhoeddus | LLYW.CYMRU

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdrinnir â'ch cais, cysylltwch â publicappointments@gov.wales

# Atodiad A:
## Penodi Cadeirydd i Amgueddfa Cymru

### Rôl y Cadeirydd

Mae Amgueddfa Cymru wedi'i chorffori drwy Siarter Frenhinol ac mae'n elusen gofrestredig a reoleiddir gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Mae gan y Cadeirydd felly gyfrifoldebau o dan y Siarter ac, fel pob Ymddiriedolwr, rhaid gydymffurfio â chyfraith elusennau a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r Cadeirydd yn atebol i Weinidog/Gweinidogion Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru sy'n darparu tua 80% o gyllid yr Amgueddfa) a gall Senedd Cymru ei ddwyn hefyd i gyfrif. Rhaid i gyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Gweinidog, yng nghwrs arferol busnes, gael ei gynnal drwy'r Cadeirydd. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod ymddiriedolwyr eraill yn cael gwybod am bob gohebiaeth o'r fath.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithredoedd yn cefnogi polisïau strategol ehangach y Gweinidog, a bod materion y Corff yn cael eu cynnal gydag uniondeb. Lle bo'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd drefnu bod y polisïau a'r gweithredoedd hyn yn cael eu rhannu â phob rhan o'r Corff.

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr a all chwarae rhan flaenllaw, gan ysbrydoli a chefnogi gwaith yr Amgueddfa i wireddu ei gweledigaeth, Mae sefyllfa'r Cadeirydd yn gofyn am berson gonest â gweledigaeth, all arwain sefydliad cenedlaethol mewn rôl anweithredol uwch, a bod yn eiriolwr o blaid yr Amgueddfa gyda'n rhanddeiliaid allweddol.

### Perthynas â'r Uwch Dîm Gweithredol

Fel Cadeirydd, byddwch yn creu, meithrin a chynnal perthynas weithio gref, effeithiol a chefnogol â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Uwch Dîm Gweithredol ehangach, gan roi cymorth a chyngor ynghylch rhoi'r strategaeth *Amgueddfa Cymru 2030* ar waith, gan barchu cyfrifolebau'r swyddogion gweithredol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol presennol yn rhoi'r gorau i'w swydd ym mis Ebrill sy'n golygu, ar adeg penodi'r Cadeirydd newydd, gall fod Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro neu ddim Cyfarwyddwr Cyffredinol o gwbl gan yr Amgueddfa.

**Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldebau arwain o ran:**

- arwain Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wrth lunio a chymeradwyo strategaethau Amgueddfa Cymru a goruchwylio eu gweithredu gan gynnwys cynnal strategaeth Amgueddfa Cymru 2030;
- cynrychioli Amgueddfa Cymru wrth Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru;
- sicrhau bod Amgueddfa Cymru, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion statudol a rheoli ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- datblygu perthynas gref ac effeithiol rhwng Amgueddfa Cymru a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau diwylliannol a threftadaeth eraill;
- goruchwylio gwaith cyffredinol tîm uwch arweinwyr Amgueddfa Cymru, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol;
- cefnogi'r tîm gweithredol i hyrwyddo defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra, uniondeb, a llywodraethu; a
- cynrychioli barn Amgueddfa Cymru gerbron y cyhoedd, gan gynnwys gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a bod yn wyneb cyhoeddus yr Amgueddfa.

Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:

- sicrhau bod holl Aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod yn llawn beth yw telerau eu penodiad a’u dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- arwain Amgueddfa Cymru i ehangu mynediad a chreu sector a chorff diwylliannol cynhwysol, yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar Ehangu Ymgysylltiad a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gweithredu ar Anabledd a'r Cynllun Gweithredu LGBTQ+;
- cydweithio â Llywodraeth Cymru ac arwain y broses yn Amgueddfa Cymru o ymateb i argymhellion yr Adolygiad Teilwredig;
- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys gofynion adrodd a rheoli ariannol elusennau a chyrff y sector cyhoeddus a’r gwahaniaethau a allai fodoli rhwng arferion y sector preifat a rhai'r sector cyhoeddus;
- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd o sgiliau sy'n briodol i allu rhedeg busnes y Corff;
- pan fydd Gweinidog yn llenwi swyddi gwag ar y Bwrdd, bydd yn rhoi cyngor penodol;
- asesu perfformiad aelodau'r Bwrdd unigol yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru;
- gwerthuso ac asesu perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol;
- sicrhau bod cod ymddygiad priodol ar gyfer aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ar fuddiannau aelodau'r Bwrdd ac ar wrthdaro buddiannau.

**Meini prawf hanfodol**

Yn eich cais, rhaid ichi ddangos eich bod yn gallu bodloni'r meini prawf hanfodol canlynol. Profir hynny ymhellach yn y cyfweliad:

- profiad o weithredu ar lefel uwch (gweithredol neu anweithredol) ac o wneud penderfyniadau cadarn mewn sefydliad mawr, cymhleth neu amlddisgyblaethol a'r gallu i Gadeirio Bwrdd yn effeithiol;

- yn dangos ymrwymiad i werthoedd a gweledigaeth Amgueddfa Cymru, gan werthfawrogi ei swyddogaeth a'i phwrpas fel sefydliad cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys y cyd-destunau diwylliannol, dysgu, iechyd a llesiant, economaidd-gymdeithasol-wleidyddol y mae'n gweithredu ynddynt; a dealltwriaeth o'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

- tystiolaeth bod gennych sgiliau rhyngbersonol. cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid cryf, gan gynnwys sgiliau llysgenhadol;

- prawf eich bod wedi cynyddu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb. Ymrwymiad pendant i ehangu mynediad a chyfranogiad mewn diwylliant ledled Cymru;

- yn dangos y gallu i feddwl yn strategol a/neu ddangos crebwyll masnachol, profiad o gynhyrchu incwm yn yr economi ymwelwyr neu brofiad cyfatebol a/neu brofiad o godi arian;

- yn gallu profi bod gennych ddealltwriaeth drylwyr o lywodraethu da, atebolrwydd, a chyfrifoldeb ariannol, gan gynnwys o ddewis cyllid sector cyhoeddus; a

- eich bod wedi ymrwymo i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

**Y Gymraeg**

Mae'r rôl hon yn cael ei hysbysebu yr un pryd â swydd Is-gadeirydd. Bydd angen i un o'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer y naill swydd neu'r llall fod yn siaradwr Cymraeg neu ymrwymo i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wedi'i benodi. Byddwn yn eich cefnogi'n llawn gyda phecyn hyfforddi pwrpasol. Fel gyda gofynion eraill, gellir trafod addasiadau rhesymol.

Mae'r Amgueddfa yn sefydliad dwyieithog ac yn cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ffordd broactif. Mae'n ofynnol i'r Amgueddfa gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel a bennwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Polisi prif noddwr yr Amgueddfa, Llywodraeth Cymru, yw cefnogi'r iaith Gymraeg, ac mae ei Strategaeth ar gyfer y Gymraeg (Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg) yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

**Arall:**

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Bydd y rhan fwyaf o weithgareddau'r Cadeirydd yn cael eu cynnal yn ardal Caerdydd fel arfer, ond bydd gofyn iddo ymweld ag Amgueddfeydd Cenedlaethol eraill a lleoliadau eraill. Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 4 gwaith y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y De |
| Ymrwymiad Amser: | Ar gyfartaledd, 2 ddiwrnod yr wythnos. Mae hynny'n cynnwys mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau |
| Hyd y swydd: | 4 mlynedd, y rhagwelir y bydd yn dechrau yng ngwanwyn 2023 |
| Tâl: | **£35,182.80.** Bydd hawl gan y Cadeirydd i gostau teithio a chostau rhesymol eraill o fewn terfynau y cytunwyd arnynt |

Efallai y bydd angen teithio i gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a digwyddiadau eraill ledled Cymru er y gallai fod hyblygrwydd i ganiatáu presenoldeb ar-lein yn ogystal â phresenoldeb wyneb yn wyneb.

**Cymorth ar gyfer Aelodau Anabl**

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r Cadeirydd allu gwneud ei ddyletswyddau'n effeithiol.

**Pwy sy'n gymwys**

Mae gwybodaeth yn Siarter Amgueddfa Cymru sy'n esbonio a yw'r Ymddiriedolwyr cyfredol neu gyn Ymddiriedolwyr yn cael gwneud cais am swydd ar y Bwrdd.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru yn golygu na chânt fod yn aelod o Senedd Cymru - Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020. Gorchymyn Senedd Cymru (Diarddel) 2020 (legislation.gov.uk)

**Gwrthdaro Buddiannau**

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Amgueddfa Cymru, gan

gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn Amgueddfa Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad.  Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld.

**Diwydrwydd Dyladwy**

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis i gyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus Mehefin 2019 (publishing.service.gov.uk)

# Atodiad B
## Rolau a Chyfrifoldebau Amgueddfa Cymru

Amgueddfa Cymru yw un o brif sefydliadau diwylliannol a chenedlaethol Cymru. Mae 1.8 miliwn o bobl yn ymweld â hi bob blwyddyn.

Wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol yn 1907, Amgueddfa Cymru yw un o'r amgueddfeydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig, yn geidwad casgliadau amrywiol a rhyngwladol bwysig, ac yn arweinydd ym myd addysg a chyfranogiad diwylliannol.

Mae safleoedd Amgueddfa Cymru yn cynnwys saith o amgueddfeydd cenedlaethol Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd: Amgueddfa Werin Cymru: Sain Ffagan; Y Pwll Mawr: Yr Amgueddfa Lo Genedlaethol ym Mlaenafon; Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn Nre-fach, Felindre; Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerleon; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Mae gan Amgueddfa Cymru Ganolfan Casgliadau Cenedlaethol hefyd ger Caerdydd. Mae dros 5 miliwn o eitemau unigol yn ein casgliadau, yn cynnwys gwaith celf a dylunio, hanes ac archaeoleg, a'r gwyddorau naturiol.

Noddir Amgueddfa Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddi Fwrdd Ymddiriedolwyr ar gyfer pennu cyfeiriad strategol y sefydliad, a sicrhau bod ei hadnoddau'n cael eu rheoli yn iawn. Fel Amgueddfa, rydym yn atebol hefyd i'r wlad a wasanaethwn am ddefnyddio'n casgliadau a'n hadnoddau.

### Gweledigaeth Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn eiddo i ni i gyd. Ein nod yw defnyddio'n hamgueddfeydd a'n casgliadau i ysbrydoli pobl i feithrin ymdeimlad o les ac o hunaniaeth, i fynd ati i ddarganfod, i fwynhau ac i ddysgu'n ddwyieithog, ac i ddeall lle Cymru yn y byd ehangach.

Rydym yn credu bod gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol ei gymunedau a'i wlad.  Rydym wedi datblygu strategaeth deng mlynedd ar gyfer yr Amgueddfa - *Amgueddfa Cymru 2030* - sy'n cynnwys chwe ymrwymiad clir. Byddwn yn gweithio gyda phobl a chymunedau ledled Cymru, trwy gasgliadau, rhaglenni cyhoeddus a phartneriaethau i:

- wneud yn siŵr ein bod yn cynrychioli pawb
- ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes
- helpu i ddiogelu ac adfer natur a'n hamgylchedd
- cefnogi llesiant drwy ofodau a phrofiadau sy'n ysbrydoli
- darganfod ac archwilio'r amgueddfa'n ddigidol
- meithrin cysylltiadau byd-eang.

Bydd gan ein Cadeirydd newydd rôl hanfodol i'w chwarae wrth wireddu'r ymrwymiadau hyn ac wrth helpu i gyflawni ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru y mae'r Amgueddfa'n brif bartner neu'n bartner allweddol iddi, yn enwedigo ran yn datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd, Oriel Celf

Gyfoes Genedlaethol, Strategaeth Ddiwylliant newydd ac ymrwymiadau i greu Cymru Wrth-hiliol.

**Swyddogaeth a Chyfrifoldebau'r Bwrdd**

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yw corff llywodraethu Amgueddfa Cymru.

Rôl y Bwrdd yw arwain yn effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol. Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus ac yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'n monitro perfformiad yn unol â nodau, amcanion a thargedau perfformiad Amgueddfa Cymru.

Mae Amgueddfa Cymru yn elusen gofrestredig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Ymddiriedolwyr rwymedigaethau yn unol â chyfraith elusen ac a nodir yn y Siarter Brenhinol i Lywodraeth Cymru ac i Senedd Cymru a'r Comisiwn Elusennau.

Ar hyn o bryd, mae Amgueddfa Cymru yn derbyn tua 80% o'i chyllid blynyddol (rhyw £25.4 miliwn o gyllid refeniw a £4.75m o arian cyfalaf yn 2022/23) oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ffurf Cymorth Grant. Mae'r sefydliad yn cyflogi dros 600 o staff ar draws ei safleoedd.

Mae Adolygiad Teilwredig wrthi'n cael ei gynnal a disgwylir ei argymhellion yng Ngwanwyn 2023. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am gadw golwg bod yr argymhellion y cytunir arnynt yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym.

**Ymddiriedolwyr y Bwrdd**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn goruchwylio ac yn cefnogi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, ac yn ei ddwyn i gyfrif, wrth iddo wireddu'r weledigaeth strategol a chyflawni'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn Llythyr cylch gwaith Amgueddfa Cymru

Mae'n rhaid i Ymddiriedolwyr hefyd:

- fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd a pharatoi'n drylwyr ar eu cyfer;
- gwasanaethu ar is-bwyllgorau;
- cefnogi rheolwyr a staff yr Amgueddfa yn eu gwaith;
- cynrychioli'r Amgueddfa mewn digwyddiadau cyhoeddus;
- hyrwyddo proffil yr Amgueddfa;
- rhoi o'u profiad a'u harbenigedd i'r Amgueddfa;
- hwyluso'r cysylltiadau gyda rhanddeiliaid yr Amgueddfa; a
- cyfrannu at y gwaith o lunio polisïau a strategaethau a phennu blaenoriaethau i fodloni amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Mae gofyn i Ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol hefyd o’r rhwymedigaethau sydd arnynt yn sgil y ffaith bod yr Amgueddfa yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac yn elusen gofrestredig.  Caiff y rhain eu nodi yn y Ddogfen Fframwaith, sy'n nodi'r Telerau a'r Amodau sy'n gysylltiedig â'r arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i'r Amgueddfa.

I fod yn effeithiol, mae angen Ymddiriedolwyr ar y Bwrdd sydd ag amrywiaeth eang o arbenigeddau a phrofiadau.

# Atodiad C
## Y Broses Ddewis

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Jason Thomas (Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru) fydd yn cadeirio'r panel dewis. Nid ydym eto'n gwybod pwy fydd aelodau eraill y panel gan gynnwys yr aelod annibynnol. Bydd yr ymgeiswyr fydd wedi'u dewis ar gyfer y rhestr fer yn cael gwybod cyn y cyfweliad pwy fydd ar y panel llawn.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu pwy i'w wahodd i gyfweliad erbyn canol mis Ebrill.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn 'Rôl y Cadeirydd' a'r 'meini prawf hanfodol' orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch chi hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dewis.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau ar-lein ar Microsoft Teams.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i Ddirprwy Weinidogion y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Dirprwy Weinidog ddewis cwrdd ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael gwybod hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Amgueddfa Cymru a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau amodau'r penodiad a gynigir ichi.

Mae Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru wedi cytuno y bydd pwyllgor perthnasol Senedd Cymru yn craffu ar benodiadau arwyddocaol Gweinidogion Llywodraeth Cymru cyn eu penodi er mwyn craffu'n fanylach ar y broses penodi cyhoeddus a'i gwneud yn fwy tryloyw. Gan fod hwn yn benodiad cyhoeddus arwyddocaol, cam ola'r broses benodi fydd gwrandawiad cyn penodi, lle caiff yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Materion Rhyngwladol.

Os na fyddwch yn llwyddiannus, cewch wybod gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod ymgeisio am swyddi'n gofyn wrth lawer o amser ac ymdrech, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

**Ymholiadau**
Oes gennych gwestiynau am eich cais, e-bostiwch.
PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

**Os nad ydych yn hollol fodlon**
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, e-bostiwch PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

**Recriwtio Cadeirydd– Amgueddfa Cymru**

**Crynodeb o'r swydd:**

Mae Amgueddfa Cymru wedi'i chorffori drwy Siarter Frenhinol ac mae'n elusen gofrestredig a reoleiddir gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Mae gan y Cadeirydd felly gyfrifoldebau o dan y Siarter ac, fel pob Ymddiriedolwr, rhaid gydymffurfio â chyfraith elusennau a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r Cadeirydd yn atebol i Weinidog/Gweinidogion Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru sy'n darparu tua 80% o gyllid yr Amgueddfa) a gall Senedd Cymru ei ddwyn hefyd i gyfrif. Rhaid i gyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Gweinidog, yng nghwrs arferol busnes, gael ei gynnal drwy'r Cadeirydd. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod ymddiriedolwyr eraill yn cael gwybod am bob gohebiaeth o'r fath.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithredoedd yn cefnogi polisïau strategol ehangach y Gweinidog, a bod materion y Corff yn cael eu cynnal gydag uniondeb. Lle bo'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd drefnu bod y polisïau a'r gweithredoedd hyn yn cael eu rhannu â phob rhan o'r Corff.

Bydd y Cadeirydd yn rhywun a all chwarae rhan flaenllaw, gan ysbrydoli a chefnogi gwaith yr Amgueddfa i wireddu ei gweledigaeth, Mae sefyllfa'r Cadeirydd yn gofyn am berson gonest â gweledigaeth, all arwain sefydliad cenedlaethol mewn rôl anweithredol uwch, a bod yn eiriolwr o blaid yr Amgueddfa gyda'n rhanddeiliaid allweddol.

**Cefndir**:

Amgueddfa Cymru yw un o brif sefydliadau diwylliannol a chenedlaethol Cymru. Mae 1.8 miliwn o bobl yn ymweld â hi bob blwyddyn.

Wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol yn 1907, Amgueddfa Cymru yw un o'r amgueddfeydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig, yn geidwad casgliadau amrywiol a rhyngwladol bwysig, ac yn arweinydd ym myd addysg a chyfranogiad diwylliannol.

Mae safleoedd Amgueddfa Cymru yn cynnwys saith o amgueddfeydd cenedlaethol Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd: Amgueddfa Werin Cymru: Sain Ffagan; Y Pwll Mawr: Yr Amgueddfa Lo Genedlaethol ym Mlaenafon; Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn Nre-fach, Felindre; Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerleon; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Mae gan Amgueddfa Cymru Ganolfan Casgliadau Cenedlaethol hefyd ger Caerdydd. Mae dros 5 miliwn o eitemau unigol yn ein casgliadau, yn cynnwys gwaith celf a dylunio, hanes ac archaeoleg, a'r gwyddorau naturiol.

Noddir Amgueddfa Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddi Fwrdd Ymddiriedolwyr ar gyfer pennu cyfeiriad strategol y sefydliad, a sicrhau bod ei hadnoddau'n cael eu rheoli yn iawn. Fel Amgueddfa, rydym yn atebol hefyd i'r wlad a wasanaethwn am ddefnyddio'n casgliadau a'n hadnoddau.

**Crynodeb Cyhoesurwydd:**

Dosbarthodd Llywodraeth Cymru fanylion y penodiad drwy restrau rhanddeiliaid a ddelir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus (PBU) a phostio'r swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwefan Swyddfa Cabinet y DU.

Hyrwyddwyd y swydd wag gan y sianeli Cyfryngau Cymdeithasol canlynol a'i hysbysebu drwy'r cyfryngau a restrir isod:

- Diversity Jobsite
- Fish4jobs
- Black Young Professionals
- Women on Board
- The Guardian
- Museums association
- Museum Next
- Safle Swyddi
- Lleol

**Crynodeb o'r broses recriwtio:**

Hysbysebwyd ar wefan Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet rhwng 10 Mawrth a 11 Ebrill 2023

Sift – 18 Ebrill 2023

Cyfweliadau – 23 a 26 Mai 2023

**Aelodaeth panel cynghori asesu:**

Jason Thomas, (Cadeirydd), Cyfarwyddwr, Chwaraeon Diwylliant a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru
Craig Stephenson, Uwch Aelod Annibynnol y Panel
Helgard Krause, Cyngor Llyfrau Cymru, Aelod Annibynnol y Panel

Derbyniwyd cyfanswm o 9 cais ar gyfer y rôl newydd. Cafodd **4** ymgeisydd eu hargymell ar gyfer cyfweliad. Ystyriodd y Panel Cynghori Asesu fod **3** ymgeisydd yn benodedig.

**Hoff ymgeisydd y Dirprwy Weinidog Chwaraeon y Celfyddydau a Thwristiaeth –** Kate Eden

**Gwrthdaro Buddiannau (fel y nodir ar y ffurflen gais)**

Aelod o'r Cyngor ac Is-gadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru Prifysgol Aberystwyth

**Gweithgaredd Gwleidyddol (fel y nodir ar y ffurflen gais)**

Dim

**Data amrywiaeth o ymgeiswyr –Cadeirydd – Amgueddfa Cymru**

| | Cymhwyso | Cyfweld |
|---|---|---|
| Nifer yr Ymgeiswyr | 6 | 4 |
| ***Rhyw*** | | |
| Benyw | 3 | 2 |
| Gwryw | 3 | 2 |
| Rhyw arall | | |
| Hunan-ddisgrifiad rhywedd | | |
| Heb ddweud | | |
| ***Anabledd*** | | |
| Datgan anabledd | | |
| Dim anabledd wedi'i ddatgan | 6 | 0 |
| Gwell gan anabledd beidio dweud | | |
| ***Ethnigrwydd*** | | |
| Gwyn | 5 | 4 |
| Grwpiau cymysg / lluosog o ethnig | | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | | |
| Du / Du Prydeinig | | |
| Grŵp ethnig arall | 1 Caribî | |
| Ethnigrwydd hunan-ddisgrifiad | | |
| Heb ddweudd | | |
| ***Oed*** | | |
| 16-24 | | |
| 25-34 | 1 | |
| 35-44 | | |
| 45-54 | 2 | 2 |
| 55-64 | 2 | 2 |
| 65-74 | 1 | |
| 75-84 | | |
| 85+ | | |
| Oedran well gen i beidio â dweud | | |
| ***Cyfeiriadedd rhywiol*** | | |
| Deurywiol | | |
| Hoyw neu Lesbiaid | | |
| Heterorywiol | 6 | 4 |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | | |
| Hunan-ddisgrifiad cyfeiriadedd rhywiol | | |
| Mae'n well gan gyfeiriadedd rhywiol beidio â dweud | | |
| ***Crefydd*** | | |
| Bwdhaidd | | |
| Cristion | 4 | 3 |
| Hindŵaidd | | |
| Iddewig | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mwslim | | |
| Sikh | | |
| Crefydd arall | | |
| Anffyddiwr / Dim crefydd | | |
| Heb ddweud | 2 | 1 |
| ***Prif Breswylfa*** | | |
| Gogledd Ddwyrain | | |
| Swydd Efrog a Humberside | | |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | | |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | | |
| Dwyrain Lloegr | | |
| Llundain | | |
| De Ddwyrain | 1 | 1 |
| Y De-orllewin | | |
| Cymru | 5 | 3 |
| Yr Alban | | |
| Gogledd Iwerddon | | |
| Preswylfa arall | | |
| Mae'n well gan breswylfa beidio â dweud | | |
| ***Prif Gyflogaeth*** | | |
| Gwasanaeth Sifil yn bennaf | | |
| Sector Preifat yn bennaf | | |
| Trydydd Sector yn bennaf | 1 | 1 |
| Sector Cyhoeddus ehangach yn bennaf | 3 | 2 |
| Cymysg | 2 | 1 |
| Cyflogaeth egwyddor arall | | |
| Egwyddor cyflogaeth yn well gen i beidio dweud | | |
| ***Penodiadau cyhoeddus*** | | |
| 0 Penodiad Cyhoeddus | | |
| 1 Penodiad Cyhoeddus | 1 | 1 |
| 2 Penodiad Cyhoeddus | | |
| 3 Penodiad Cyhoeddus yn | | |
| 4 Penodiad Cyhoeddus | | |
| 5-9 Penodiadau Cyhoeddus | | |
| 10+ Penodiad Cyhoeddus | | |
| Heb ddwedu | | |
| ***Gweithgaredd Gwleidyddol*** | | |
| Datgan gweithgarwch gwleidyddol | | |
| Dim gweithgarwch gwleidyddol wedi'i ddatgan | | |
| Mae'n well gan weithgarwch gwleidyddol beidio â dweud | | |
| Ceidwadol | | |
| Gwyrdd | | |

| | | |
|---|---|---|
| Llafur | 1 | 1 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | | |
| Plaid Cymru | | |
| Plaid Genedlaethol yr Alban | | |
| Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig | | |
| Unrhyw bleidiau eraill | 1 | |

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Stephen Crabb AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cymreig
Tŷ'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0AA

04 Gorffennaf 2023

**Ymchwiliad i ddarlledu yng Nghymru**

Annwyl Stephen

Rwy'n ysgrifennu atoch i ddiolch am y gwahoddiad i ymddangos yn sesiwn dystiolaeth olaf y Pwyllgor Materion Cymreig ar gyfer ei ymchwiliad i ddarlledu yng Nghymru ddydd Mercher 28 Mehefin 2023. Roedd y sesiwn yn gyfle pwysig i graffu ar waith un o weinidogion Llywodraeth y DU mewn perthynas â mater sydd o ddiddordeb i Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd. Gweithiodd y model a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith craffu o'r fath yn dda iawn yn fy marn i.

Roeddwn i am ddiolch i chi a'ch pwyllgor am eich parodrwydd a'ch brwdfrydedd i fabwysiadu'r dull hwn o gydweithio.  Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe baech yn diolch ar fy rhan i'ch cyd-Aelodau a thîm y Pwyllgor am y croeso a gefais.

Edrychaf ymlaen at gyfleoedd eraill i gydweithio yn y dyfodol.

Yn gywir



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/1101/23

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

6 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

Diolch yn fawr i chi ac aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol am ystyried y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 5) am y drosedd newydd o annog neu gynorthwyo person arall i hunan-niweidio yn ddifrifol, mewn perthynas â Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 19 Mehefin sy'n nodi bod yr aelodau'n cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, i'r graddau nad yw'r darpariaethau newydd yn gysylltiedig â chyfathrebu electronig, fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hynny.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

06 Gorffennaf 2023

**Ynghylch: Cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol: 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Annwyl Mark,

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 12 Mehefin 2023, sy'n hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o 39ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig o dan y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol ("y Cytundeb") rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Wedi trafod yr ohebiaeth hon fel Pwyllgor, byddem yn ddiolchgar, fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol, pe gallech rannu gohebiaeth yn y dyfodol am y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig â ni hefyd. Byddem hefyd yn ddiolchgar o gael copi o'r cyfathrebiad y cytunwyd arno gan y Cyngor yn yr Uwchgynhadledd ynghyd â'r crynodebau misol y cytunwyd arnynt yn flaenorol o ymweliadau diplomyddol â Chymru ac ymweliadau tramor Gweinidogion. Rydym, unwaith eto, yn ddiolchgar am hyn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gan y gwnaethoch rannu'r llythyr dyddiedig 12 Mehefin â hwy hefyd.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.4

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

6 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 07 Mehefin a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn fy mhresenoldeb yn sesiwn graffu flynyddol y Pwyllgor ar Gysylltiadau Rhyngwladol ar 10 Mai.

<u>Canllawiau ar Weinyddiaethau Datganoledig a anfonir at Benaethiaid Cenhadaeth y DU gan Ysgrifennydd Tramor y DU</u>

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Tramor ar 3 Mai yn mynegi siom gyda'r canllawiau diwygiedig a anfonwyd at Benaethiaid Cenhadaeth y DU. Nid yw'r dull yn cyd-fynd â'r egwyddorion cydweithredol a nodir yn yr Adolygiad Rhynglywodraethol gan fod y canllawiau wedi cael eu datblygu'n unochrog gan Lywodraeth y DU heb ymgynghori. Mae hefyd yn datgan y dylai uwch swyddogion yn y DU fod yn bresennol ym mhob cyfarfod tramor a gynhelir gan lywodraethau datganoledig os ydynt yn credu y gallai materion a gedwir yn ôl gael eu trafod.

Codwyd y mater yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a fynychwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad. Nododd y cyfarfod y pryderon ynghylch y canllawiau diweddar a chytunwyd y byddai Gweinidogion yn gwahodd Swyddfa'r Gymanwlad a Datblygu (FCDO) i gyfarfod o'r IMSC yn y dyfodol i drafod y mater hwn.

Ymatebodd yr Ysgrifennydd Tramor i'm llythyr ar 22 Mai, gan nodi'r pryderon ond gan ddod i'r casgliad bod yr arfer o swyddogion Llywodraeth y DU yn bresennol mewn cyfarfodydd Gweinidogol gyda llywodraethau lletyol wedi bod yn un hirsefydlog a chyffredin, a bod cael swyddogion Llywodraeth y DU yn bresennol yn gallu helpu i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sicrhau cydlyniant polisi ac eglurder negeseuon ar bolisi rhyngwladol y DU. Amgaeaf y ddau lythyr i'w nodi (Saesneg yn unig).

Cytundebau dwyochrog rhyngwladol

Llofnodais Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru/Fflandrys gyda'r Gweinidog Lywydd ar ei hymweliad â Chaerdydd ar 6 Mehefin. Mae cytundebau tebyg gyda Baden Württemberg a Silesia yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ac yn amodol ar gytundeb rydym yn disgwyl i'r rhain gael eu llofnodi cyn diwedd y flwyddyn. Byddaf hefyd yn ail-lofnodi ein cytundeb gyda Llydaw pan fyddaf yn teithio i Rennes yn yr Haf, ac rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gael cytundeb newydd gyda Chatalonia rywbryd yn y dyfodol.

Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor, fe wnaethom greu tudalen we bwrpasol sy'n rhestru'r holl gytundebau dwyochrog rhyngwladol gweithredol, gan gynnwys rhestru'r meysydd cydweithio â'n partneriaid. Mae manylion cytundeb Fflandrys wedi cael eu cynnwys. Ar y sail bod gennym fanylion y cytundebau ar dudalen we benodol, ni welaf unrhyw reswm dros anfon copïau o'r rhain i'r Pwyllgor gan eu bod, yn gyffredinol, yn safonol o ran eu ffurf a'u strwythur.

Rhaglen Weithgarwch Cymru yng Nghanada 2022

Rwyf wedi cynnwys crynodeb o weithgarwch Cymru yng Nghanada 2022 yn Atodiad A, sydd hefyd yn cynnwys cyflawniadau a chanlyniadau. Mae'r holl weithgarwch yn cyd-fynd ag o leiaf un o dair prif uchelgais y strategaeth ryngwladol sef:

- Codi proffil Cymru yn rhyngwladol,
- Tyfu ein heconomi drwy allforio a mewnfuddsoddi,
- Sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Roedd y prif wersi a ddysgwyd o'r ymgyrchoedd blaenorol yn canolbwyntio ar ymgysylltu'n gynharach yn y broses gynllunio – ar draws y llywodraeth a chyda rhanddeiliaid allanol – a sicrhau swyddogion cymorth ychwanegol i helpu i gyflawni'r ymgyrch o leiaf dri mis ymlaen llaw. Rydym hefyd wedi gweld gwahaniaeth yn ein cyfleoedd a'n canlyniadau cyfathrebu pan fydd swyddog y wasg yn rhan o ddirprwyaeth weinidogol allanol. Mae'r holl wersi hyn wedi cael eu cymhwyso o ran Cymru yn Ffrainc 2023 a byddwn yn parhau i werthuso pob ymgyrch i fesur ei llwyddiant ac er mwyn parhau i ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd pob ymgyrch.

Gweithgarwch iaith yn ystod Cymru yng Nghanada 2022

Mae iaith yn rhan bwysig o'n gweithgarwch rhyngwladol fel y nodir yn y Strategaeth Ryngwladol. Mae ein blynyddoedd 'Cymru yn' wedi ceisio defnyddio'r cyfle yma i ymgysylltu yn y maes hwn. Fel rhan o'r flwyddyn Cymru yng Nghanada, roedd y gweithgarwch a oedd yn ymwneud ag iaith yn cynnwys:

- Presenoldeb Cymreig yng Ngŵyl Breakout West yn Calgary, gyda thri artist gwahanol yn arddangos. Ar y cyd â FOCUS Wales, fe wnaethom gefnogi tri chyngerdd arddangos i dynnu sylw at artistiaid Cymru a chynnal sesiwn cerddoriaeth ar ddydd Sul gydag artistiaid Cymraeg ac ieithoedd brodorol. Ar Ddiwrnod Gwirionedd a Chymodi, bu Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a

chynrychiolydd o'r band Cymreig, Adwaith, yn siarad ar banel a oedd yn trafod y rôl y mae cerddoriaeth yn ei chwarae o ran diogelu a hyrwyddo ieithoedd brodorol.

- Cefnogi prosiect drwy'r Alwad Cymru-Québec am Gynigion i hwyluso cydweithio rhwng Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau a'r ŵyl lenyddol 'Metropolis Bleu' ym Montreal. Daeth awdur dwyieithog i Montreal a gwnaeth ddarlleniad yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Ngerddi Botanegol Montreal.

- Hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol neges Heddwch yr Urdd yn ieithoedd swyddogol Canada, ac Inuktitut – yr iaith frodorol a siaredir fwyaf eang yng Nghanada.

- Hyrwyddo Cymru drwy gydweithio â dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol o Yukon, Pavlina Sudrich, a hyrwyddodd werthoedd, iaith, chwaraeon, diwylliant a threftadaeth Cymru i gannoedd ar filoedd o ddilynwyr. Cafodd y fideos a gomisiynwyd gennym o'r cydweithrediad hwn eu gweld dros 5.5 miliwn o weithiau, gyda chyfraddau ymgysylltu uchel.

- Ymweliad Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol â Chanada yn arddangos ein gwaith yng Nghymru ar iaith fel rhan o Ddegawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig.

Mae rhestr lawn o weithgarwch Cymru yng Nghanada 2022 ar gael yn Atodiad A.

<u>Perthynas Llywodraeth Cymru ag Undeb Rygbi Cymru</u>

Edrychwn ymlaen at gael cynrychioli Cymru eto mewn twrnamaint chwaraeon rhyngwladol mawr a'r cyffro y mae hyn yn ei greu i Gymru a'r llwyfan y mae'n ei gynnig i godi ein proffil yn rhyngwladol. O ran Cwpan Rygbi'r Byd, mae hyn yn golygu y byddwn yn parhau i weithio gyda'n holl randdeiliaid sy'n ymwneud â'r flwyddyn Cymru yn Ffrainc, gan gynnwys Undeb Rygbi Cymru. Undeb Rygbi Cymru yw'r corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer rygbi'r undeb yng Nghymru a'i nod yw hyrwyddo rygbi a chyfranogiad yn y gamp ledled Cymru. Bydd dinasyddion ledled Cymru yn edrych ymlaen at weld ein cenedl yn cymryd rhan yn y twrnamaint ac mae'n iawn ein bod yn barod i gefnogi hynny.

Rwy'n bryderus pan fydd unrhyw sefydliad yn wynebu heriau a honiadau ynghylch ei brosesau a'i ddiwylliannau mewnol. Credaf ei bod yn bwysig cydnabod bod Undeb Rygbi Cymru wedi cydnabod a derbyn y pryderon a godwyd ac wedi cymryd camau cadarnhaol. Mae'r adolygiad allanol a'r newidiadau llywodraethu diweddar y cytunwyd arnynt yn y Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol ym mis Mawrth yn gam cadarnhaol iawn i'r cyfeiriad cywir. Yr wythnos diwethaf, penododd Undeb Rygbi Cymru gadeirydd annibynnol a chyfarwyddwr newydd ar y bwrdd. Mae angen i ni barhau i weld gwelliannau a byddwn yn parhau i ymgysylltu ag Undeb Rygbi Cymru ar y sail honno.

O safbwynt chwaraeon, mae angen i ni barhau i weithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, fel Undeb Rygbi Cymru, fel ceidwaid y gêm. Byddwn yn cynnal cysylltiadau cynhyrchiol er mwyn darparu, er enghraifft, y gêm gymunedol, gan fod hyn yn cyfrannu at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wella mynediad a chynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

<u>Rôl cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Ewrop yn y dyfodol.</u>

Penodwyd Derek Vaughan yn Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Ewrop ym mis Ionawr 2022 drwy gystadleuaeth agored am gyfnod penodol tan ddechrau 2024. Ers ymgymryd â'r rôl, mae wedi bod yn defnyddio ei brofiad a'i gysylltiadau'n llwyddiannus i wella cysylltedd a gwelededd Cymru ym Mrwsel yn ystod y cyfnod ar ôl Brexit. Byddwn yn ystyried dyfodol y rôl yn ystod y flwyddyn hon, gan ystyried sut mae'r rôl wedi gweithio, ac asesu cyd-destun ehangach y berthynas rhwng Cymru a'r UE.

Cynnydd yn erbyn y Strategaeth Ryngwladol

Mae hyblygrwydd yn allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r Strategaeth Ryngwladol. Pan gafodd ei ysgrifennu, ni fyddai neb wedi rhagweld rhyfel yn Ewrop, y newid yn y dirwedd geowleidyddol, na'r ffaith y byddai llawer o'n gwledydd partner hynaf, fel Japan, yn cael eu gorfodi i gau eu ffiniau am dros ddwy flynedd gan lesteirio masnach a thwristiaeth. Mae'r heriau hyn wedi ein dysgu bod yn rhaid i ni ymateb i newid.

Yn wir, mae barn bod digwyddiadau byd-eang dros y blynyddoedd diwethaf wedi codi ein proffil. Mae ymweliadau diplomyddol a rhyngwladol â Chymru'n cynyddu'n gyflym. Mae diplomyddion yn cyrraedd Cymru gyda gwybodaeth sylweddol am y wlad, ein diwylliant a'n polisïau. Yn aml, gofynnir cwestiynau penodol i mi am ddull gweithredu Cymru yn ystod y pandemig, dulliau polisi arloesol – fel rhaglen Taith – neu am ein camau i ddiogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg. Mae digwyddiadau eraill, yn enwedig rhai chwaraeon, wedi codi proffil y wlad ac rydym wedi gweithio'n galed i fanteisio i'r eithaf ar y rhain. Mae Cwpan Pêl-droed y Byd i Ddynion yn un amlwg ac yn uchel iawn ei broffil. Ond mae'n bwysig cofio ein gweithgareddau mewn twrnameintiau eraill – gan gynnwys Cwpan Rygbi'r Byd i Fenywod yn Seland Newydd, Gemau'r Gymanwlad yn Lloegr a Chwpan y Byd Hoci i Ddynion yn India.

Mae Adroddiad Blynyddol 2022-23 a'r datganiad a wnaed gennyf yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 13 Mehefin yn rhoi crynodeb da o'r cynnydd ar ein gweithgarwch rhyngwladol.

Cydlynu gweithgarwch gyda Llywodraeth y DU dramor i sicrhau Gwerth am Arian

Mae ein Strategaeth Ryngwladol a'n Cynllun Gweithredu Allforio yn ein hymrwymo i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn y farchnad, gan gynnwys cenadaethau a llysgenadaethau tramor, i gynyddu ein llais dramor a chyflawni ein gweithgareddau/teithiau masnach yn y farchnad.

Lle bo'n briodol, rydym yn gweithio ar y cyd â rhwydweithiau tramor yr Adran Busnes a Masnach (DBT) a Llysgenhadaeth y DU i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau teithiau masnach, gan gynnwys darparu sesiynau briffio yn y farchnad ar gyfer busnesau Cymru, trefnu derbyniadau rhwydweithio, trefnu stondinau ar y cyd â phafiliynau Llywodraeth y DU mewn arddangosfeydd masnach byd-eang wedi'u targedu, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a sicrhau gwerth am arian.

Lle mae gennym swyddfeydd Llywodraeth Cymru, mae'r timau yn y farchnad yn datblygu perthynas â'u cydweithwyr yn yr Adran Busnes a Masnach (DBT) a Swyddfa'r Gymanwlad a Datblygu (FCDO) gan chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar ddigwyddiadau a gweithgareddau allweddol.

Mae cydweithwyr tramor yn gweithio gyda chydweithwyr DBT i hyrwyddo cyfleoedd i gwmnïau yng Nghymru gymryd rhan mewn mentrau DBT dramor fel teithiau i mewn a'r tu allan i'r sector, cynadleddau a digwyddiadau rhithiol/ffisegol a chyfleoedd i siarad ym meysydd busnes / academaidd / arbenigol.

Mae timau tramor hefyd yn ceisio ymgysylltiad cydweithwyr yn y DU â phrosiectau sy'n cael eu harwain gan Gymru, fel Dydd Gŵyl Dewi a'n mentrau "Cymru yn...". Roedd Llysgennad Ffrainc, er enghraifft, wedi cynnal lansiad Cymru yn Ffrainc 2023 ac wedi cefnogi gweithgareddau eraill cysylltiedig. Ac roedd gennym berthynas waith agos â Llysgenhadaeth y DU yn Qatar drwy gydol Gwpan y Byd FIFA 2022.
Mewn marchnadoedd lle nad oes gennym swyddfa, rydym yn gweithio'n adweithiol gan feithrin cysylltiadau â llywodraethau lleol ac asiantaethau datblygu economaidd i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer allforion o Gymru a darganfod unrhyw gyfleoedd buddsoddi cysylltiedig.

<u>Cyflawni yn erbyn Cylchoedd Gwaith y Swyddfa Dramor</u>
Rydw i'n falch iawn o'r hyn mae ein swyddfeydd tramor wedi'i gyflawni yn 2022-23 – ac rydw i wedi cael cyfle i weld rhywfaint o hynny'n bersonol drwy fy rhaglenni yn Nulyn a Cork, Qatar, Brwsel a Pharis. Mae'r adroddiad blynyddol yn dangos amrywiaeth eang o weithgareddau y maent wedi'u cyflawni yn erbyn eu cylchoedd gwaith.

Yn ogystal â chyflawni ar fasnach a buddsoddi, mae ein swyddfeydd hefyd wedi gwneud gwaith sylweddol o ran cyfleu gwerthoedd Cymru a'n hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth fel partner sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Maent wedi hyrwyddo rhaglenni a pholisïau arloesol Cymru fel Taith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Maent wedi gweithio gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu ac ymrwymiadau eraill ym maes addysg, chwaraeon, addysg, twristiaeth, diwylliant, yr Iaith Gymraeg, dyfodol cynaliadwy a gwyddoniaeth i hyrwyddo cynigion a syniadau penodol Cymru i gydweithio i ddatrys ein heriau byd-eang o ran newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.

Mae'r swyddfeydd tramor wedi gweithio gyda phartneriaid cyflenwi Cymru a rhanddeiliaid tramor o fforymau sector a chlystyrau busnes, gan gynnwys y rheini lle rydym wedi sefydlu partneriaethau rhyngwladol strategol fel yr Urdd, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Academi Heddwch – yn ogystal â phartneriaethau eraill gyda Chyngor Prydeinig Cymru, Cymru Fyd-eang ac Amgueddfa Cymru. Mae'r partneriaethau hyn yn tyfu o un flwyddyn i'r llall ac mae ymdrechion ar y cyd yn sicrhau mwy o effaith yn rhyngwladol.

Yn Ewrop, mae'r tîm hefyd wedi bod yn weithgar yn datblygu rhwydweithiau Ewropeaidd allweddol, megis Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR) a Menter Vanguard i gefnogi'r gwaith o gyflawni agweddau Ewropeaidd ar ein hamcanion economaidd, academaidd, gwyddoniaeth ac ymchwil ac arloesi.

Mae ein cyrhaeddiad marchnata a chyfathrebu rhyngwladol cyfunol hefyd wedi cynyddu'n sylweddol – gan ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o adrodd stori Cymru – yn enwedig drwy sianeli digidol – gan gyrraedd cynulleidfaoedd newydd mewn ffyrdd diddorol, yn ogystal â rhai straeon llwyddiannus yn cael sylw ar deledu ac yn y wasg draddodiadol e.e. Cymru yng Nghanada, Cymru yn Ffrainc, Cwpan y Byd FIFA.

Monitro a gwerthuso gweithgarwch rhyngwladol

Mae pŵer meddal, oherwydd union natur ei weithgarwch, yn anodd ei fesur, ond mae'n arf gwerthfawr yn ein hymgysylltiad rhyngwladol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'n gyhoeddus yr hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys tair astudiaeth achos – Cwpan y Byd FIFA 2022, Cymru yng Nghanada 2022 a'n dull gweithredu o ran Ewrop. Mae gan bob swyddfa dramor hefyd gylch gwaith wedi'i gyhoeddi sy'n nodi sut y bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu.

Mae pob un o'r Cynlluniau Gweithredu yn cynnwys cyfres o amcanion tymor byr a thymor hir sy'n cynnwys cymysgedd o ganlyniadau diriaethol ac anniriaethol. Mae'n gymharol hawdd mesur presenoldeb ac ymgysylltiad yn ein digwyddiadau tramor. Mae nifer y cwmnïau sy'n mynychu taith fasnach neu sioe fasnach, gwerth y cytundebau allforio sydd wedi'u llofnodi yn y digwyddiadau hyn i gyd yn darparu canlyniadau pendant iawn – felly hefyd nifer y rhai sy'n bresennol mewn derbyniad i rai sy'n byw y tu allan i'w mamwlad (diaspora) neu ddigwyddiad rhwydweithio.

Lle mae'n anodd mesur y canlyniadau, gallwn ddefnyddio metrigau - fel cyfathrebu - i ddeall cyrhaeddiad ein gweithgarwch. Nid oes modd mesur ein holl weithgarwch fel hyn ond mae pob un o'n timau tramor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Cymru yn unol ag uchelgeisiau'r Strategaeth Ryngwladol.

Roedd y sylw yn y cyfryngau i Gymru drwy gydol ymweliad y Gweinidog dros yr Economi â Washington DC ar gyfer gêm Cymru v UDA yn eang ac yn amrywiol, gan gynnwys cyfweliadau radio a theledu. Rhoddodd The Washington Post y digwyddiad 'Soccer in the Circle' fel tudalen flaen ei atodiad i'r Metro, ynghyd â thudalen ddwbl y tu mewn, a oedd yn cynnwys cyfweliadau â chyn-fyfyrwyr o America a oedd wedi astudio yng Nghymru. Mae'r math hwn o ymgysylltu yn werthfawr ond mae'n anodd ei fesur – amcangyfrifir bod dros 655,000 o ddarllenwyr yn ardal Metro DC ac mae dros 63 miliwn o bobl yn defnyddio gwefan y Washington Post.

Mae gwerthusiad llawnach o Gwpan y Byd Qatar yn mynd rhagddo o hyd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Costau Teithio Tramor Gweinidogion

Bydd yr holl gostau teithio tramor gweinidogion yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Cod Gweinidogol. Mae Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu'r rhaglen ar gyfer pob ymweliad ac yn sicrhau bod Aelodau – a'r cyhoedd – yn gallu gweld ehangder y gweithgarwch a wneir ar ymweliad tramor.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

## Cymru yng Nghanada 2022

Isod ceir rhestr lawn o’r gweithgareddau rhwng mis Mawrth 2022 a mis Chwefror 2023.

| Gweithgaredd | Ymhle |
|---|---|
| **Mawrth** | |
| • Lansio Cymru yng Nghanada - neges y Prif Weinidog | Ar-lein - Canada/Cymru |
| • Lansio Cymru yng Nghanada - neges HC i’r DU | Ar-lein - Canada/Cymru |
| • Lansio Cymru yng Nghanada – Derbyniad ar Iâ | Ottawa, Ontario |
| • Panel ar ieithoedd brodorol mewn cerddoriaeth | Ar-lein - Canada/Cymru |
| • Gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi | Llundain, y DU |
| • Expo Dubai | Dubai, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig |
| • Ymweliad Rhaglen Lleoliadau Gwaith Seneddol â Chymru | Caerdydd, Cymru |
| • Cyber UK | Casnewydd, Cymru |
| **Ebrill** | |
| • Taith Fasnach Niwclear | Ottawa, Ontario |
| • Ymestyn Ysgoloriaeth Cymru Fyd-eang i Fyfyrwyr Canada | Ar-lein - Canada/Cymru |
| • Ymweliad Asiant Cyffredinol Ontario â Chaerdydd | Caerdydd, Cymru |
| **Mai** | |
| • Uwchgynhadledd Deallusrwydd Artiffisial y Byd | Montreal, Québec |
| • FOCUS Cymru | Wrecsam, Cymru |
| • Lansio Canada Goes Cymru | Wrecsam, Cymru |
| • Metropolis Blue Montreal | Montreal, Québec |
| • Neges heddwch yr Urdd | Ar-lein - Canada/Cymru |
| • Lansio cais Cymru-Québec ar y cyd am gynigion | Ar-lein – Québec /Cymru |
| • Digwyddiad Alumni Toronto | Toronto Ontario |
| • Ymweliad ag Eglwys Gymraeg Toronto | Toronto Ontario |
| **Mehefin** | |
| • Garddwest y Jiwbilî | Ottawa Ontario |
| • Doors Open Ottawa | Ottawa Ontario |
| • Digwyddiad HMS Protector – Montreal a Dinas Québec | Dinas Québec, Québec |
| • Taith i’r wasg ar Lwybr Arfordir Cymru | Cymru |
| • Bardd o Ganada yng Nghymru drwy Alwad Cymru-Québec am gynigion | Aberystwyth, Cymru |
| • Ymweliad Canolfan Ddiwylliannol Banff – Diwrnod Cenedlaethol Pobl Frodorol | Banff, Alberta |
| • Cyngerdd Côr Gogledd America – Banff a Calgary | Banff a Calgary |

| | |
|---|---|
| **Gorffennaf** | |
| • Nodi 6 mis o Gymru yn Canada | Ar-lein |
| • Gemau’r Gymanwlad | Birmingham, y DU |
| • Sioe Awyr Ryngwladol Farnborough | Farnborough, y DU |
| **Awst** | |
| • Donna Screening | Ottawa |
| • Tîm Rygbi Menywod Cymru yng Nghanada: gêm Cymru v Canada | Halifax |
| **Medi** | |
| • Taith Fasnach i Ganada | Ottawa / Toronto / Halifax |
| • Gŵyl Ffilmiau Ryngwladol Toronto | Toronto |
| • Ymweliad Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Montreal/ Ottawa / Vancouver |
| • Digwyddiad Cymreig Vancouver | Vancouver, BC |
| • Ymweliad Celfyddydau Rhyngwladol Cymru | Montreal Ottawa, Vancouver |
| **Hydref** | |
| • Breakout West | Calgary, Alberta |
| **Tachwedd** | |
| • Lansio Podlediad SoftPowerCymru | Ar-lein - Canada/Cymru |
| • Ontario a Chymru ym Medica Düsseldorf | Düsseldorf, Yr Almaen |
| • Symposiwm CAMH/Cymru: Iechyd Meddwl Digidol o Bolisi i Ymarfer | Ar-lein - Ontario/Cymru |
| • M am Montreal | Montreal, Québec |
| • Cyhoeddi canlyniadau’r Alwad am Gynigion | Québec a Chymru |
| • BC Creative x Cymru Greadigol - Derbyniad Masnach | Llundain, y DU |
| • Digwyddiadau Cwpan y Byd FIFA | Canada |
| **Rhagfyr** | |
| • Ymweliad y Gweinidog Newid Hinsawdd â Montreal | Montreal, Québec |
| • Presenoldeb LIC yn Uwchgynhadledd Bioamrywiaeth COP15 | Montreal, Québec |
| • Neges diwedd blwyddyn gan MCC | Ar-lein - Canada/Cymru |
| • FM yn ymateb i Yukon TikTokker | Ar-lein Yr Yukon |
| **Ionawr** | |
| • Cyfweliad Y Prif Weinidog ar CBC Radio | Ar-lein Yr Yukon |
| **Chwefror** | |
| • Yukon TikTokker yn ymweld â Chymru | Cymru |

## Canlyniadau a Chyflawniadau

Roedd cyflawniadau a chanlyniadau allweddol Cymru yng Nghanada yn cynnwys:

Addysg

- Ymestyn Ysgoloriaeth ôl-raddedig Cymru Fyd-eang i fyfyrwyr o Ganada. Hyd yn hyn, bydd dros 100 o fyfyrwyr o Gymru yn astudio yng Nghanada drwy raglen Taith, a nod yr Ysgoloriaeth hon yw annog hyd yn oed mwy o gysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r rhai yng Nghanada.

Y Celfyddydau

- Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn llofnodi cytundeb gyda'r *Conseil des arts et des lettres du Québec* (CALQ) ar gyfer tair preswylfa artistig ddwyochrog rhwng Cymru a Québec, gan gefnogi chwe artist. Bydd y cyntaf o'r rhain yn dechrau gydag artist o Gymru yn dechrau cyfnod preswyl yn y *Centre des musiciens du monde* ym Montreal ym mis Medi 2023.

- Dangos y ffilm 'Donna': Digwyddiad i ddangos y ffilm 'Donna' am y tro cyntaf yn Capital Pride, Ottawa. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sesiwn holi ac ateb gyda'r cyfarwyddwr o Gymru, Jay Bedwani, y cynhyrchydd o Gymru, Dewi Gregory, a'r prif gymeriad, Donna Personna, a gafodd ei hedfan allan o San Francisco gan Lysgenhadaeth UDA Ottawa, y buom yn gweithio mewn partneriaeth â hi ar y digwyddiad.

Cryfhau perthnasoedd

- Yn dilyn digwyddiadau ar gyfer yr alumni a'r diaspora, cafodd cysylltiadau newydd eu gwneud a'u defnyddio i hwyluso digwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn, fel partïon gwylio Cwpan y Byd.

- Roedd y trafodaethau polisi rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiwn Economaidd Vancouver (VEC), yn canolbwyntio ar agweddau'r Cenhedloedd Cyntaf tuag at lesiant a rhannu gwybodaeth rhwng Cymru a Chanada.

- Trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Ontario ynghylch llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar draws amrywiaeth o sectorau er budd pawb, gyda chynllun gweithredu cysylltiedig, yn 2023.

- Mae llu o weithgarwch dilynol o ymweliad y Gweinidog Newid Hinsawdd â Montreal ym mis Rhagfyr 2022; mae'r ymweliad cyntaf â Chymru gan un o'r rhanddeiliaid yng Nghanada wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2023.

- Cafodd 12 o brosiectau ar y cyd rhwng rhanddeiliaid yng Nghymru a rhanddeiliaid yn Québec a gymeradwywyd ar gyfer 2022 ar y cyd â Llywodraeth Québec a fydd yn cael eu cynnal yn 2023, a bydd pedwerydd Cais am Gynigion yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023.

Codi proffil Cymru

- Rhoddwyd sylw i'n gwaith gan dri rhwydwaith teledu yng Nghanada, cyhoeddodd y Globe a'r Mail (sy'n cynnwys dros saith miliwn o ddarllenwyr) ddarn barn (op-ed) llawn hyd. Fe wnaeth y Prif Weinidog hefyd roi cyfweliad sain gyda CBS.

- Cafodd ein cydweithrediad â dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol o Ganada o'r Yukon ei weld dros 5.3 miliwn o weithiau ar gyfer y cynnwys Cymreig a gomisiynwyd ar draws TikTok ac Instagram yn unig, gyda bron i 750,000 o bobl yn hoffi ac yn gwneud sylwadau.

- Roedd y cydweithio'n stori newyddion i sefydliadau newyddion mawr yng Nghanada a Chymru, gydag erthyglau a chyfweliadau am y gwaith hwn yn ymddangos ar-lein ac ar ddarllediadau teledu oriau brig.

- Chwaraeodd tîm rygbi merched Cymru yn erbyn tîm rygbi merched Canada yn Halifax, Nova Scotia, yn y cyfnod cyn Cwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd ym mis Hydref 2022. Defnyddiwyd y gêm i gynnal cysylltiadau â busnes lleol, cysylltiadau gwleidyddol a chysylltiadau â diaspora. Darlledwyd y gêm ar S4C yng Nghymru a'r brif sianel chwaraeon yng Nghanada, TSN. Bu i ni hefyd ymgymryd â rhywfaint o nawdd corfforaethol ar gyfer y gêm i farchnata twristiaeth i Gymru.

# International Relations Diplomatic Visits – June 2023

## INWARD VISITS – JUNE 2023

**05 June** **Visit by the Minister President of Flanders**
The First Minister and Minister President signed an MOU, and the Minister President also took part in a broader programme, which included a showcase of the Wales Tech and Cultural sectors.

**08 June** **Visit by the UK Ambassador to Qatar**
HMA visited Wales to follow up on the visits made by the FM and Minister for Economy to Qatar during the World Cup. He attended a lunch, hosted by the Economy Minister, with Cardiff Airport and the FAW.

**08 June** **Visit by the Catalan government in the UK**
A delegation from Catalonia House in London visited Wales to identify areas of potential collaboration with the prospect of a refreshed and renewed MOU being signed between Wales and Catalonia in the future.

**13 June** **Visit to Wales by the High Commissioner of Malta to the UK**
Bilateral with the First Minister to discuss future cooperation and trade.

**28 June** **Visit by the Swiss Ambassador to the UK**
Bilateral with the Deputy Minister for Arts, Sport & Tourism to discuss the current Free Trade Agreement negotiations, Wales' life science and fintech capabilities and areas of cooperation.

## OUTWARD VISITS – JUNE 2023

**19 June** **Minister for Economy at Paris Air Show**
The Economy Minister travelled to Paris to visit the Wales Pavilion and take part in a programme to showcase our aerospace and space sectors and included meetings with prominent global aerospace companies and current inward investors. The visit formed part of the wider Wales in France 2023 celebrations.
https://www.gov.wales/wales-flying-high-paris-air-show

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

6 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 7 Mehefin a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth yn dilyn fy mhresenoldeb yn sesiwn graffu flynyddol y Pwyllgor ar berthynas Cymru/Iwerddon ar 10 Mai.

<u>Dyraniad y Gyllideb</u>

Mae gan swyddfa Llywodraeth Cymru yn Iwerddon gyllideb flynyddol i gyflawni amcanion y strategaeth ryngwladol. Ar ben hynny, mae cyllideb flynyddol benodol ar wahân i gyflawni nodau'r cyd-ddatganiad a'r cynllun gweithredu ar y cyd, sef £40k ar gyfer 2023/24. Mae'r gyllideb yn y gorffennol wedi cael ei defnyddio ar draws nifer o themâu, gan gynnwys cefnogi artistiaid diwylliannol Cymru i berfformio yn Iwerddon a dod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid at ei gilydd i nodi Dydd Gŵyl Dewi yn Iwerddon.

<u>Secondiad i Adran Materion Tramor Iwerddon</u>

Mae secondiad Llywodraeth Cymru i Adran Materion Tramor Iwerddon i edrych ar ymgysylltiad Iwerddon â'r diaspora wedi dod i ben erbyn hyn. Mae adroddiad terfynol ar ddull gweithredu Llywodraeth Iwerddon a'r modd y mae'n cyflawni ei strategaeth diaspora byd-eang yn cael ei roi at ei gilydd a bydd crynodeb yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar ôl iddo gael ei gwblhau.

<u>Parhad y rhaglen PEACE PLUS</u>

Mae swyddogion yn monitro'n agos y datblygiadau o ran gweithredu Rhaglen PEACE Plus gwerth €1bn drwy gyswllt rheolaidd â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a chydag Awdurdod Rheoli'r Rhaglen, Corff Rhaglenni Arbennig yr Undeb Ewropeaidd (SEUPB). Prif nod y Rhaglen (wrth gwrs) yw cefnogi heddwch a ffyniant yng Ngogledd Iwerddon a siroedd y ffin yn Iwerddon, ond mae digon o hyblygrwydd yn y Rhaglen i alluogi rhanddeiliaid y tu allan i'r ardal gymwys agosaf i ymuno â phrosiectau Gogledd-De lle mae gwerth ychwanegol amlwg wrth wneud hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Fframwaith Môr Iwerddon Llywodraeth Cymru, sy'n rhan o Cymru Ystwyth, yn annog ac yn dylanwadu ar gydweithredu ar draws ac o amgylch Môr Iwerddon. Mae partneriaid yng Nghymru yn cael gwybod am gyfleoedd posibl i ymgysylltu â PEACE Plus ac yn cael cyngor, arweiniad a chefnogaeth drwy Cymru Ystwyth.

Rhyngweithio fframwaith cysylltiadau Cymru-Iwerddon a mentrau eraill Llywodraeth Cymru

Mae ein cysylltiadau Cymru-Iwerddon yn seiliedig ar gysylltiadau agos rhwng yr holl bartïon perthnasol ar bob lefel. Mae cysylltiadau agos ar draws Llywodraeth Cymru â chymheiriaid yn Iwerddon – ar lefel Gweinidogion a swyddogion. Mae'r perthnasoedd hyn yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'n Rhaglen Lywodraethu. Maent yn cael eu datblygu'n ddwyochrog a thrwy ymgysylltu mewn fforymau fel y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.

Drwy Ddatganiad ar y Cyd Cymru/Iwerddon rydym wedi dod â llawer o'r gweithgarwch hwn at ei gilydd. Mae'r datganiad yn nodi sut gallwn weithio gyda'n gilydd ar feysydd polisi ar y cyd ac yn darparu fframwaith i gefnogi ein hymgysylltiad.

Mae gan lawer o Weinidogion feysydd cyfrifoldeb unigol – fel sy'n cael ei ddangos drwy gryfder ein hymgysylltiad Gweinidogol yn Fforwm Iwerddon/Cymru ac yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Fel Prif Weinidog, mae gennyf gyfrifoldeb Gweinidogol cyffredinol.

Mae gan bob un o'r cynlluniau hyn ddibenion gwahanol ac maent yn ategu'i gilydd. Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn ymdrin ag ehangder ein hymgysylltiad rhyngwladol. Mae'r Datganiad ar y Cyd a'r Cynllun Gweithredu ar y Cyd wedyn yn nodi'n fanylach y meysydd lle gallwn weithio gyda'n gilydd ac yn gosod fframwaith ar gyfer ein hymgysylltiad dwyochrog yn gyffredinol.

Mae Fframwaith Môr Iwerddon wedi cael ei ddatblygu fel rhan o Cymru Ystwyth ac mae'n cynnwys set ehangach o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraethau Datganoledig a rhanddeiliaid eraill. Mae'n arwain ac yn dylanwadu ar gamau gweithredu i gynyddu cydweithrediad economaidd ar draws ac o amgylch Môr Iwerddon. Mae'n ategu Datganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon Cymru ac yn adeiladu ar y llwyddiannau presennol yn rhaglen Cymru Iwerddon a rhaglenni perthnasol eraill a ariennir gan yr UE.

Cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl Brexit

Mae Llywodraeth Cymru, a'n rhanddeiliaid, yn parhau i dynnu sylw at lwyddiannau rhaglen Cymru-Iwerddon a lledaenu'r wybodaeth a'r adnoddau y mae wedi helpu i'w datblygu. Roedd hon yn nodwedd o'n hail Symposiwm Môr Iwerddon ar 16 Mai a bydd yn nodwedd o ddigwyddiad dathlu rhaglen Cymru Iwerddon yn Nulyn ym mis Mehefin.

Rydych chi'n ymwybodol o sut mae Agile Cymru a Fframwaith Môr Iwerddon yn helpu i gynnal y rhwydweithiau a'r capasiti ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol. Mae hyn yn cefnogi 'clymblaid y rhai parod' o ran rhanddeiliaid ar draws Môr Iwerddon a'r cyffiniau, gyda'r potensial i ddenu rhagor o adnoddau a chyllid. Mae'r galw mawr am gynllun cyllido presennol Cymru Ystwyth Môr Iwerddon yn dangos yr awydd i barhau i gydweithredu. Fel y soniais, mae swyddogion Cymru ac Iwerddon hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael mecanwaith cydweithredu newydd, ac edrychaf ymlaen at symud ymlaen ar hynny yn ystod yr Hydref.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru ac Iwerddon yn cwrdd yn rheolaidd i drafod cynnydd yn erbyn y Datganiad ar y Cyd a materion eraill ac mae cysylltiadau agos yn cael eu cynnal â Chonswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd. Mae'r partneriaid strategol rydyn ni'n eu hariannu drwy'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol yn ymgysylltu ag Iwerddon a'r mis diwethaf, aeth swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Circular Economy Hotspot yn Nulyn, digwyddiad rhyngwladol mawr, cyn iddo ddod i Gymru yn 2024. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r trefnwyr yn Iwerddon i ddysgu gwersi cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal yma.

Mynediad i Horizon Ewrop

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn glir mai cysylltu â Horizon Ewrop oedd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio.–Mae'n galonogol yn awr ei bod yn ymddangos bod y rhwystrau gwleidyddol wedi cael eu rhoi i'r naill ochr a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r bwriad o gwblhau'r cysylltiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl rhagweld pa mor hir y bydd y trafodaethau'n ei gymryd ac a fyddant yn dod i ben gyda chysylltiad.

Mae'r warant bresennol bellach wedi'i hymestyn tan fis Medi. Rhag ofn na fydd cysylltiad wedi'i sicrhau yn y tymor byr, bydd yn rhaid i'r meddwl droi at ddefnyddio'r gyllideb a ddyrannwyd i Horizon Ewrop yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rydym yn gweld cysylltiad fel llwyddiant ac mae angen i bob ochr gadw llygad ar y tymor hir, nid sgorio enillion ariannol tymor byr.

Ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r datganiad ar y cyd a'r cynllun gweithredu ar y cyd

Mae'n bwysig cofio mai cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon yw'r Datganiad ar y Cyd, a ni sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun. Mae'r gwaith o gyflawni'r Datganiad yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid sydd wedi cael y mecanwaith drwy'r Datganiad ar y Cyd i ddatblygu cysylltiadau parhaol.

Mae ein partneriaid strategol mewn sefyllfa ddelfrydol i fwrw ymlaen â gwaith i gyflawni nodau ehangach y Strategaeth Ryngwladol ac mae gennym nifer o gytundebau yn eu lle sy'n caniatáu i'n partneriaid allanol weithio gyda ni a chyflawni ei uchelgeisiau, gan gynnwys y Datganiad ar y Cyd. Fodd bynnag, nid dyma'r unig fecanwaith sydd gennym i gefnogi partneriaid yn eu gwaith rhyngwladol.

Mae gennym hefyd Gytundebau Partneriaeth Strategol ar yn eu lle gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Urdd i helpu i gyflawni ein huchelgeisiau. Mae gan bob un o'r partneriaid hyn weithgarwch a nodir yn eu Cytundeb Partneriaeth y cytunwyd arno ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Daeth y gweithgarwch y cyfeirir ato yn y Datganiad ar y Cyd cyn y Cytundebau Partneriaeth hyn a helpu i lunio sut rydym yn gweithio gyda sefydliadau o'r fath. Mae'r Cytundebau Partneriaeth Strategol blynyddol yn cael eu creu drwy broses ymgynghorol ac maent yn cynnwys gweithgarwch ar draws ein marchnadoedd blaenoriaeth, gan gynnwys Iwerddon.

Roedd y Datganiad yn gyfrwng ar gyfer dod â gweithgarwch presennol at ei gilydd a rhoi siâp a chydlyniaeth iddo. Ni fwriadwyd iddo gael ei ddatblygu drwy ddefnyddio dull ymgynghorol, felly, rhoddwyd ystyriaeth i weithgarwch partneriaid presennol. Mae'r Cytundebau Partneriaeth Strategol yn adeiladu ar hyn ac yn ddogfennau ymgynghori ar y cyd.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Siambr Fasnach Prydain-Iwerddon a Siambr Corc yn Iwerddon ac maen nhw wedi cefnogi nifer o deithiau masnach. Roedd ein taith fasnach ddiweddaraf i Iwerddon yn cynnwys Siambr Fasnach Iwerddon ac roedd y Siambr yn bresennol yn ein sesiwn briffio yn y farchnad ar gyfer y cwmnïau. Mae Siambrau Cymru yn cefnogi ein teithiau masnach yn anuniongyrchol, gan gynnwys i Iwerddon, drwy ddarparu ei wasanaethau cymorth arferol i gwmnïau ac mae'r math hwn o gymorth presennol yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad yn hytrach na bod yn alwad bwrpasol i weithredu.

<u>Rôl y Prif Weinidog yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig</u>

Eleni dethlir 25 mlynedd ers sefydlu'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) fel y'i sefydlwyd dan Gytundeb Belfast 1998. Mae'n parhau i ddarparu fforwm i gynrychiolwyr o bob rhan o'r ynysoedd hyn ddod at ei gilydd i rannu heriau ac arferion gorau. Gall hyn fod ar lefel Pennaeth Llywodraeth neu Weinyddol (fel yn yr uwchgynadleddau dwywaith y flwyddyn), i lawr i lefel swyddogion drwy ein sectorau gwaith ar y cyd y cytunwyd arnynt. Rwy'n falch bod Cymru'n arwain ar ddau sector gwaith (Polisi Blynyddoedd Cynnar; ac Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd) ac yn cyd-arwain, gyda Llywodraeth yr Alban, un arall (Cynhwysiant Cymdeithasol) – gallwn ddysgu cymaint o brofiadau ein cymdogion.

Nid yw ein rôl yn y Cyngor wedi cael ei newid yn sgil ymadael â'r UE – ac yn wir, yn fy marn i, nid yw gadael yr UE ond wedi atgyfnerthu pwysigrwydd BIC a'n perthnasoedd. Ond yn naturiol, mae effeithiau ymarferol ymadael â'r UE wedi bod yn bynciau trafod yn y cyfarfodydd perthnasol ac mae, wrth gwrs, yn nodwedd reolaidd pan fyddwn yn trafod y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf.

<u>Adnewyddu'r Cydweithrediad y tu hwnt i 2025 a chynnwys rhanddeiliaid</u>

Yn ein papur tystiolaeth, fe wnaethom ddweud ein bod yn rhoi ystyriaeth gynnar i ddatganiad diwygiedig neu ddatganiad yn y dyfodol ar ôl 2025. Rydym yn gwybod gan ein rhanddeiliaid bod y datganiad yn darparu llwyfan cryf ar gyfer cydweithio parhaus ac mae cefnogaeth amlinellol ac awydd i hynny barhau.  Fodd bynnag, nid ydym wedi dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Iwerddon eto ynghylch sut y gallai unrhyw Ddatganiad newydd edrych a byddai'n amhriodol i mi wneud sylwadau pellach ar hyn o bryd.

Yn y papur tystiolaeth rydym hefyd yn tynnu sylw at y meysydd rydym am ganolbwyntio arnynt ar gyfer gweddill y Datganiad cyfredol. Mae hynny'n cynnwys cysylltiadau addysg, cyllid yn y dyfodol, cydweithredu economaidd a masnach, ymgysylltu gwleidyddol a rhannu polisi.

Fodd bynnag, gallwch fod yn dawel eich meddwl, os byddwn yn datblygu cytundeb pellach, a gyda chyfle i'w wneud mewn cyd-destun ar ôl Covid, y byddwn yn ymgysylltu ac yn cynnwys rhanddeiliaid ar eu blaenoriaethau fel yr ydym wedi'i wneud wrth gyflawni'r cynllun. Mae ein llwyddiannau hyd yma wedi'u seilio ar gydweithio a dull gweithredu Tîm Cymru ac rydym wedi gweld cysylltiadau fel y rhai rhwng ein hamgueddfeydd cenedlaethol a'n mudiadau ieuenctid yn ffynnu. Bydd unrhyw gynlluniau yn y dyfodol yn ceisio dysgu oddi wrth hynny ac adeiladu arno.

<u>Datganiad ar y Cyd â'r Almaen a defnyddio cysylltiadau Cymru/Iwerddon fel glasbrint</u>

Mae gan Gymru berthynas hirsefydlog â'r Almaen a rhanbarth Baden-Württemberg, ar ôl llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn wreiddiol yn 1990. Rydym yn bwriadu llofnodi Datganiad ar y Cyd newydd gyda Baden-Württemberg, un o'r 16 Bundes-Länder Almaenig yn ne-orllewin yr Almaen, yn yr hydref. Roedd Llywodraeth yr Alban hefyd wedi llofnodi cytundeb newydd gyda'r rhanbarth y llynedd.

Mae'r Almaen yn bartner masnachu pwysig i Gymru a Baden-Württemberg yw pwerdy diwydiannol mwyaf yr Almaen a'r rhanbarth allforio cryfaf. Mae ei heconomi'n cael ei siapio gan y diwydiant gweithgynhyrchu a busnesau bach a chanolig eu maint sy'n cyfrif am 99% o'r economi. Mae'r diwydiant moduron yn cyfrif am tua 30% o'r trosiant diwydiannol, yn cael ei ddilyn gan beirianneg fecanyddol ac adeiladu peiriannau, a diwydiannau metel ac electronig, a diwydiannau cemegol, fferyllol ac optegol.

Mae gwneud cysylltiad â'r rhanbarth hwn yn fwy na mater economaidd, ond mae'n cynnig cyfle i ddangos ein bod yn genedl Ewropeaidd sy'n edrych tuag allan ac sy'n awyddus i rannu, dysgu ac arloesi. Mae Baden-Württemberg yn rhanbarth sy'n rhannu ein gwerthoedd o ran cynaliadwyedd ac mae'n un o'r 'Four Motors for Europe' y mae Cymru'n aelod cyswllt ohono ac yn aelod pwysig o Glymblaid Under2.

Bydd y Datganiad ar y Cyd hwn yn adfer ein hymrwymiad ac yn nodi ein diddordebau a'n huchelgeisiau cyffredin ar draws nifer o faterion allweddol o fasnach ac entrepreneuriaeth i ddiwylliant a chymunedau.

Mae'r fframwaith Datganiad ar y Cyd yn cynnig model y gallwn ei ddefnyddio mewn mannau eraill ond ni ddylai cytundebau rhyngwladol gael eu cyfyngu gan ddull gweithredu o'r fath ac mae ffyrdd eraill o weithio yn fwy hirsefydlog ac efallai y byddant yn fwy priodol mewn amgylchiadau gwahanol. Mae gan wahanol lefydd wahanol ddiwylliannau a ffyrdd o weithio a'r peth pwysicaf i mi yw nid ein bod ni'n llofnodi cytundeb neu fod ein cytundebau yn dilyn yr un patrwm – ond y gweithredu, y cydweithio, y rhwydweithiau cynaliadwy sy'n deillio o'r rhain.

Dyna pam, yn achos Baden-Württemberg, nad ydym yn aros i ddogfennau gael eu llofnodi'n ffurfiol. Mae Cymru Ystwyth eisoes yn cefnogi busnesau a sefydliadau yng Nghymru i fwrw ymlaen â chydweithredu economaidd gyda'r rhanbarth, fel y gwnaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Yr wyf o blaid cynlluniau penodol wedi'u targedu. Er enghraifft, wrth ddatblygu ein gwaith gyda Silesia, rydym yn edrych ar nifer fach o feysydd, fel twristiaeth, lle gallwn wneud gwaith penodol gyda'n gilydd, rhannu dysgu ac ysbrydoli gweithredoedd.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS,
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Gorffennaf 2023

Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25

Annwyl Rebecca,

Nododd y Pwyllgor eich amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Phrotocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais atoch ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon. Ar ben hynny, er ein bod wedi trafod yn gryno amserlen y gyllideb tua diwedd ein cyfarfod ar 20 Mehefin, ni wnaethom drafod dyddiadau penodol, fel y nodwyd yn eich llythyr, ac nid oedd cyfle i mi godi pryderon o ystyried y diffyg gwybodaeth a rannwyd bryd hynny ynghylch eich cynigion.

## Rhesymau annigonol dros oedi

Mae paragraff 11 o'r Protocol yn nodi "ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol". Mae'n ychwanegu:

> *"Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU."*

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft. Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i chi.

Fel y gwnaethoch nodi, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn eich sefyllfa gyllido a bod angen gwyro oddi wrth y broses 'arferol' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym ychwaith yn derbyn bod yr oedi yn gyfan gwbl o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i'ch rheolaeth. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, mae gennych ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i wneud y gwaith craffu gofynnol.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol nad yw'r broses dau gyfnod a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn ac mae'r cais i ohirio proses y gyllideb eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid.

Mae eich parodrwydd i osgoi dilyn y broses hon unwaith eto yn cwestiynu eich ymrwymiad i'r arferion hyn y cytunwyd arnynt, o ystyried nad yw amseriad craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.

## Diffyg ymgynghori

Rydym hefyd yn nodi eich bod wedi ymgynghori â'r Pwyllgor ar eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2023-24 y llynedd. Mae'n resyn felly na chafodd dull tebyg ei fabwysiadu eto.

Mewn blynyddoedd pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ac yn osgoi'r broses dau gyfnod a amlinellir yn y Protocol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl trafodaeth aeddfed ac ymgynghoriad ystyrlon ar faterion o'r fath ac mae peidio â gwneud hynny yn bwrw amheuaeth ynghylch yr ymrwymiadau a wnaethoch yn flaenorol i weithio'n adeiladol ac mewn partneriaeth i wella ein prosesau'r gyllideb.

## Y camau nesaf

Rwy'n croesawu eich parodrwydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar eich cynigion cyllideb cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, o ystyried ei effaith ar eu rhaglenni gwaith ac yn sgil y pryderon a'r sylwadau a fynegwyd yn flaenorol ar y materion hyn.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths MS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon